

CYNLLUN GWEITHREDU BIOAMRYWIAETH LLEOL SIR GAERFYRDDIN CYNLLUN GWEITHREDU – BRITHEG Y GORS

Cyflwyniad

Mae britheg y gors (*Eurodryas aurinia* – *marsh fritillary*) yn löyn byw deniadol sy'n hedfan o ganol mis Mai tan ganol mis Mehefin fel rheol. Mae'r larfâu'n byw fel cymuned mewn gwe sidan ar damaid y cythraul a gellir eu hadnabod yn hawdd ddiwedd yr haf. Mae'r larfâu'n gaeafu'n isel yn y llystyfiant ac yn dod i'r amlwg yn y gwanwyn canlynol, cyn troi'n chwiler ym mis Mai.



Mae brithegion y gors yn byw mewn metapoblogaethau, h.y. grŵp o glystyrau lleol a gysylltir drwy wasgaru achlysurol, lle gall diflannu neu gytrefu ddigwydd yn lleol ar unrhyw safle unigol dros gyfnod. Mae'r niferoedd yn y clystyrau unigol yn dueddol o ostwng yn arw neu gynyddu yn lleol a hynny'n bennaf oherwydd picwnen barasitig fach. Bydd tywydd garw'n effeithio arnynt, yn yr un modd.

Gan fod ar fetapoblogaethau brithegion y gors angen ardal eang o gynefin addas er mwyn goroesi yn yr hirdymor, gall colli neu ddarnio cynefin gael effaith sylweddol ar orosiad y glöyn byw.

Yng Nghymru, glaswelltir niwtral/asidig llaith yw cynefin y glöyn gan amlaf, a thamaid y cythraul yw planhigyn cynhaliol y larfa. Mae ganddo ofynion manwl o ran ei gynefin. Yn ddefnyddol dylai glaswelltir gwlyb sy'n cynnal poblogaethau brithegion y gors gael ei bori'n weddol gan wartheg a merlod er mwyn cynnal brithwaith o laswellt byr a thwmpathog – mae'r llecynnau cysgodol, byrion yn ficrohinsoddau cynnes sy'n hybu datblygiad y larfa. Nid yw'n addas rhoi defaid i bori yno, gan eu bod o ddewis yn pori ar y planhigyn sy'n fwyd larfaol ac yn rhoi bod i laswellt homogenaidd, byr.

Mae brithegion y gors wedi prinhau'n arw yn y Deyrnas Unedig ac maent wedi darford yn llawer o'u dosbarthiad gwreiddiol. De-orllewin Cymru yw un o'r cadarnleoedd bellach. Mae'r mwyafrif o'r clystyrau sydd yn Sir Gaerfyrddin yn ne-ddwyrain y sir at ei gilydd ac yn dilyn ardal lofaol De Cymru, gyda chlystyrau gwasgaredig mewn mannau eraill. Nid ydym yn gwybod maint llawer o'r clystyrau, ac er bod llawer yn fach efallai, gyda'i gilydd maent yn gyfraniad arwyddocaol i'r boblogaeth genedlaethol. Mae llawer o'r safleoedd yn dioddef oherwydd pori ar raddfa amhriodol; yn benodol, diffyg pori sydd wedi rhoi cyfle i'r porfeydd ordyfu ac i brysgwydd ymledu yn sgil hynny. Mae rhannau o'r ardal hon wedi'u datblygu'n helaeth eisoes ac maent dan bwysau parhaus yn sgil y galw am ragor o dai a gwaith, ac mae hyn yn fygythiad arall i'r rhywogaeth.

Mae Ardal Cadwraeth Arbennig Caeau Mynydd Mawr SAC (sy'n cynnwys tri SoDdGA) ger Cross Hands wedi'i dynodi am frith y gors a glaswelltir corsog. I ateb gofynion o dan Gyfarwydddeb Cynefinoedd, lle y gallai datblygiadau yn ardal Cross Hands effeithio ar y glöyn byw neu'i gynefin, sefydlwyd [prosiect](#) sy'n ceisio sicrhau bod digon o gynefin cysylltiedig mewn cyflwr da neu addas i'r glöyn byw oddi mewn i ardal ddiffiniedig i sicrhau y caiff ei statws cadwraeth ei gynnal/gwella yn yr ardal.

Mae hyn yn golygu llunio cytundebau â thirfeddianwyr lleol i ymgymryd â chamau rheoli i wella cynefin y glöyn byw.

Dynodwyd bod brithigion y gors yn nodwedd ar wyth Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn Sir Gaerfyrddin; hefyd, mae gan Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru warchodfa natur yn Rhos Cefn Bryn lle gwelir y glöynnod byw hyn.

Mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol, fel rhan o'i gyfrifoldebau statudol/polisi, yn mynnu y cynhelir arolygon mewn perthynas â chynllunio/penderfynu ar unrhyw gynllun/prosiect a allai effeithio ar frithegion y gors.

Datganiad ynghylch y Weledigaeth a'r Amcanion

Ein gweledigaeth ar gyfer y rhywogaeth bwysig hon yw atal colli rhagor o gynefinoedd sy'n addas ar gyfer y rhywogaeth hon yn ardaloedd y metapoblogaethau, a gwella'r cynefinoedd lled-orau drwy reoli priodol i sicrhau bod poblogaethau'n cael eu cynnal ac i annog helaethu eu dosbarthiad. Yn ogystal, gallai'r rhywogaeth hon gael ei hyrwyddo yn un o rywogaethau pwysicaf Sir Gaerfyrddin er mwyn rhoi mwy o sylw i'n cyfoeth o fioamrywiaeth a'i chysylltiadau â'r modd y mae pobl lleol wedi rheoli'r tir ddoe a heddiw, a'r ffactorau sy'n bygwth ein hamgylchedd naturiol. Byddai unrhyw gamau gweithredu yn ceisio cyflawni un neu ragor o'r amcanion canlynol:

MF1 Cynnal a chynyddu niferoedd a dosbarthiad brithigion y gors yn Sir Gaerfyrddin

MF2 Dal i arolygu a monitro dosbarthiad a statws brithigion y gors yn Sir Gaerfyrddin

MF3 Cynyddu ymwybyddiaeth o bwysigrwydd brithigion y gors yn Sir Gaerfyrddin a chynghori ar reoli cynefinoedd

Crynodeb o'r camau gweithredu a gyflawnwyd gan Bartneriaid y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol (i gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â'r swyddog bioamrywiaeth – Bioamrywiaeth@sirgar.gov.uk) neu ewch i wefan y System Adrodd ar Weithredu Bioamrywiaeth genedlaethol – <http://ukbars.defra.gov.uk>:

2010–12

- Dod i gytundebau rheoli â pherchenogion tir sy'n rhan o brosiect Britheg y Gors Mynydd Mawr – Gwarchod Glöynnod Byw MF1
- Parc Gwledig Llyn Llech Owain – rheoli cynefin er budd brithigion y gors – Cyngor Sir Caerfyrddin/Gwirfoddolwyr MF1
- Parc Gwledig Llyn Llech Owain – lluosogwyd planhigion tamaid y cythraul o had – Cyngor Sir Caerfyrddin/Gwirfoddolwyr MF1
- Llunio Canllawiau Cynllunio Atodol i'w defnyddio yng nghyswllt datblygu a all effeithio ar Ardal Cadwraeth Arbennig Caeau'r Mynydd Mawr – Cyngor Sir Caerfyrddin MF1
- Prosiect glaswelltir y Gwendraeth – rheolwyd glaswelltir corsio i wella'r amodau ar gyfer brithigion y gors ar safleoedd yn y sir – PONT (Pori, Natur a Threftadaeth), Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru, Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru, yr Ymddiriedolaeth Glaswelltiroedd MF1

- Cwblhawyd arolwg o gynefin metapoblogaeth brithegion y gors o gwmpas Cross Hands – Cyngor Sir Caerfyrddin/Cyngor Cefn Gwlad Cymru MF2
- Arolygon/monitro safleoedd brithegion y gors yn y sir; cofnodi safleoedd newydd, ymweld â hen safleoedd – Gwarchod Glöynnod Byw/gwirfoddolwyr MF2
- Crëwyd model athreiddedd tirwedd ar gyfer brithegion y gors o gwmpas Cross Hands– Cyngor Sir Caerfyrddin MF2

2013

- Datganiad i'r Wasg ynghylch Tamaid y Cythraul wedi ei ddsbarthu - Cyngor Sir Caerfyrddin MF2/3
- Prosiect tirwedd wedi'i lunio i ddiogelu a rheoli glaswelltir corsio sy'n gynefin i frithegion y gors yn ardal Cross Hands; swyddog prosiect wedi'i gyflogi - Cyngor Sir Caerfyrddin MF1
- Cydgysylltu â pherchnogion tir ynghylch rheoli'r tir ar gyfer brithegion y gors MF3
- Astudiaeth egino tamaid y cythraul ar y gweill ar gyfer gradd Meistr yn y Gwyddorau - Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru MF3
- Arolygon blynyddol o weoedd larfal wedi eu cynnal ar safleoedd yn y sir – Gwarchod Glöynnod Byw MF3
- Gwaith monitro blynyddol wedi'i gynnal yng Ngwarchodfa Natur Rhos Cefn Bryn – Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru MF2
- Median Farm wedi cael ei phrynu at ddibenion rheoli brithegion y gors (sy'n cynnwys Ardaloedd Cadwraeth Arbennig) – Cyfoeth Naturiol Cymru MF1
- Erthygl wedi cael ei hysgrifennu ar gyfer UK Biodiversity News - Cyngor Sir Caerfyrddin MF3

2014

- Prosiect Brithegion y Gors Caeau'r Mynydd Mawr - Cafodd 10 o safleoedd (33 o hectarau) eu rheoli. Cyllidwyd hynny gan gyfraniadau gan ddatblygwyr – CSC
- Prosiect Brithegion y Gors Caeau'r Mynydd Mawr - Codwyd 1375 o fetrau o ffensys, a hynny gan contractwr lleol, er mwyn sicrhau bod pori'n gallu digwydd eto mewn caeau oedd wedi eu hesgeuluso ers sawl blwyddyn - CSC
- Prosiect Brithegion y Gors Caeau'r Mynydd Mawr - Trawsleolwyd 1000m² o laswelltir corsio i Barc Gwledig Llyn Llech Owain fel rhan o'r cynllun lliniaru ar gyfer Datblygu Gorllewin Cross Hands – CSC
- Prosiect Brithegion y Gors Caeau'r Mynydd Mawr – Cynhaliwyd diwrnodau agored ac anerchiadau i ddisgyblion lleol ynghyd â gwaith arolygu a gwella cynefinoedd gan wirfoddolwyr – CSC
- Cynhaliwyd dwy astudiaeth o damaid y cythraul – Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru / Prifysgol Aberystwyth / CSC
- Mae pori at ddibenion cadwraeth ynghyd â chyfrif gweoedd larfaol yn flynyddol yn digwydd yn Rhos Cefn Bryn. Daethpwyd o hyd i 24 o weoedd - YNDGC
- Mae pori at ddibenion cadwraeth ynghyd â chyfrif gweoedd larfaol yn flynyddol yn digwydd yng Nghaeau Ffos Fach/Median Farm. Daethpwyd o hyd i 262 o weoedd. – Gwarchod Glöynnod Byw / Gwirfoddolwyr
- Mae rheoli glaswelltiroedd a chodi ffensys yn digwydd ar dir Median Farm, Cross Hands er budd brithegion y gors – codwyd 1885 o fetrau o ffensys, a chliriwyd 372 o fetrau o ffosydd gan wirfoddolwyr a oedd wedi treulio dros 16 o ddiwrnodau wrth y gwaith – Gwarchod Glöynnod Byw / Gwirfoddolwyr
- Cynhaliwyd arolygon o'r oedolion / gweoedd larfaol ledled y sir. Daethpwyd o hyd i safleoedd newydd - 11 o gaeau newydd ym Mrynaman, 1 yn Llansadwrn, ac 1 yn Abergorlech – Gwarchod Glöynnod Byw / Gwirfoddolwyr / CSC

- Cynhaliwyd arolwg o gynefinoedd / gweoedd larfaol yng nghyffiniau Brynmanan – daethpwyd o hyd i 47 o weoedd a 100 hectar o gaeau lle'r oedd cynefin addas – Y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol.
- Gwnaed gwaith i reoli'r prysgwydd ym Mharc Natur Ynysdawela er mwyn adfer glaswelltir ar gyfer brithregion y gors. Daethpwyd o hyd i oedolion ac i 11 o weoedd larfaol yn 2014 – CSC / YNDGC / Gwirfoddolwyr

2015

- Cynhaliwyd arolwg o gynefin yn nyffryn Aman i sefydlu cysylltiadau rhwng Cross Hands a Brynmanan – canfuwyd safleoedd newydd – CadGlöyn MF2
- Monitro poblogaethau brith y gors ledled y sir – CadGlöyn /WTSWW/CC/CNC MF2
- Arolwg o safleoedd newydd yn y sir – CadGlöyn /CNC/CSC MF2
- Rheoli cynefinoedd mewn lleoliadau allweddol yn ardal prosiect Brith y Gors Caeau Mynydd Mawr – CsC/CadGlöyn /CNC/WTSWW MF1
- Ymweliadau ag ysgolion a sgysiaau drwy brosiect Brith y Gors Mynydd Mawr - CSC MF3
- Prosiect ysgol i ledaenu planhigion tamaid y cythraul – Menter Cwm Gwendraeth MF3

Y camau arfaethedig yn y dyfodol

- Hyrwyddo pwysigrwydd brithregion y gors a'u cynefinoedd yn ardal Cross Hands – Cyngor Sir Caerfyrddin/Gwarchod Glöynnod Byw MF3

Deddfwriaeth


Mae britheg y gors wedi'i rhestru yn Atodiad II o Gyfarwyddeb Cynefinoedd y Comisiwn Ewropeaidd ac yn Atodiad II o Gonfensiwn Bern. Mae hefyd wedi'i diogelu'n llwyr dan Atodlen 5 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981. Mae gweithredu fel a ganlyn yn drosedd dan y ddeddfwriaeth:

- Lladd, anafu, cymryd yn fwriadol.
- Meddu neu reoli (anifail byw neu anifail sydd wedi trigo, rhan ohono neu'r hyn sy'n deillio ohono).
- Difrodi neu ddiinstrio unrhyw adeiladwaith neu le y mae anifail rhestredig yn ei ddefnyddio'n gysgodfa neu'n warchodfa.
- Tarfu ar unrhyw anifail sydd mewn adeiladwaith neu le o'r fath.
- Rhwystro mynediad i unrhyw adeiladwaith neu le o'r fath.
- Gwerthu, cynnig gwerthu, meddu neu gludo i'w werthu (anifail byw neu anifail sydd wedi trigo, rhan ohono neu'r hyn sy'n deillio ohono).
- Hysbysebu er mwyn prynu neu werthu anifail byw neu anifail sydd wedi trigo, rhan ohono neu'r hyn sy'n deillio ohono.

Dolenni defnyddiol:

- Gwarchod Glöynnod Byw – [marsh fritillary](#)

Ar un adeg roedd 'greasy fritillary' yn enw Saesneg ar fritheg y gors oherwydd bod ei lliwiau llachar yn pylu ar ôl ychydig ddyddiau gan roi rhyw wawr sgleiniog i'r glöyn byw.



Partneriaeth **Bioamrywiaeth** Sir Gaerfyrddin
 Carmarthenshire **Biodiversity** Partnership

www.carmarthenshirebiodiversity.co.uk

Mae'r sefydliadau canlynol yn rhan o [Partneriaeth Bioamrywiaeth Sir Gaerfyrddin](#):
[Cyngor Sir Caerfyrddin](#), [Ymddiriedolaeth Natur De a Gorrlewin Cymru](#),
[Cyfoeth Naturiol Cymru](#), [Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar \(RSPB\)](#),
 Ymddiriedolaeth Adar y Gwlyptir, [Clwb Adar Sir Gaerfyrddin](#),
[Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru](#), [Gwarchod Glöynnod Byw](#),
[Ymddiriedolaeth Afonydd Sir Gaerfyrddin](#), [Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol](#),
[Cymdeithas Fotanegol Ynysoedd Prydain](#), [Naturiaethwyr Llanelli](#),
[Yr Ymddiriedolaeth Gwarchod Ystlumod](#),
[Canolfan Wybodaeth Bioamrywiaeth Gorrlewin Cymru](#),
[Yr Ymddiriedolaeth Gwarchod Amffibiaid ac Ymlusgiaid](#)